

Meaningful Chocolate 2018
Adnoddau ar gyfer Adfent
i ysgolion ac eglwysi

Gwasanaeth 1:

Cyfri sbesial

CA1-2

(Oed 5-11)

NODIADAU

i'w defnyddio'r gyda'r Powerpoint

Nod: I esbonio ystyr Adfent ac i nodi mai da yw cael amser i baratoi cyn y Nadolig.

Cynnwys y nodiadau:

1. Bod aros / disgwyl yn gallu bod yn anodd ond yn werthfawr.
2. Cyflwyno'r enw cywir am yr wythnosau sy'n arwain at y Nadolig
3. Ystyr Adfent
4. Sut i ddefnyddio'r *Calendr Adfent go iawn*' fel rhan o'r paratoadau am y Nadolig.

Cyfle i feddwl mwy am gyfnod yr Adfent

Adnodau:


PowerPoint i'w lawrlwytho o (www.meaningfulchocolate.co.uk/pages/resources)

Technegol:

Ymglyfarwyddwch â'r cyflwyniad ymlaen llaw a gwneud unrhyw addasiadau e.e. tafodiaith.
Ffontiau: Arial ac Helvetica.



Croeso



Mae yna air sy'n disgrifio'r hyn mae'r bobl yn ei wneud yn y lluniau sy'n dilyn. Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair.



(Yn dilyn mae yna gyfres o gwestiynau i ofyn i'r plant).

Llun o faes awyr. Be sy'n digwydd yn y llun? Tybed i ble mae'r bobl yn mynd? Ydych chi'n credu fod y bobl yn hapus neu'n drist?




Llun o ddynes yn eistedd mewn londrét / golchdy. Be sy'n digwydd yn y llun? Tybed am be' mae'r person yn meddwl? Ydy'r person yn teimlo'n ddiflas neu'n unig?



Llun o ddynes/fenyw feichiog (sy'n disgwyl babi). Tybed am be mae hi'n feddwl?



Llun o ddyn yn eistedd ar sofffa. Tybed be mae o'n wneud a pham? Tybed am be mae o'n meddwl?



Beth yw'r gair? Disgwyl (aros – dibynnu ar eich tafodiaith)



Bob blwyddyn rydyn ni'n ôl-gyfri (count-down) 24 diwrnod i ben-blwydd rhywun arbennig.

Pen-blwydd pwy?

Dyma gliw!



A chliw arall... Tybed os oes yna rywun yn gwybod yr enw sy'n cael ei roi ar hwn? (y Calendr Adfent yn y llun). Rydyn ni'n agor 24 o ffenestri bach / ddrysau yn y dyddiau'n sy'n arwain at y Nadolig.



Llynedd falle eich bod chi wedi cael un o'r rhain gyda llun Paddington Bear arno neu Peppa Pinc neu Lego Star Wars. 'Falle bod rhai ohonoch wedi cael un 'home made', wedi ei wneud gan dad neu mam? Fel arfer dad neu mam, taid neu nain, sy'n rhoi un o'r rhain i chi. Oes rhywun yn gwybod be ydy'r enw sbesial/cywir ar un o'r rhain?



Pam fod rhai calendrau Adfent gyda lluniau o angylion, gwŷr doeth a'r baban Iesu arnynt? Nodwch mai gwŷl i ddathlu geni Iesu ydy'r Nadolig.

Ydych chi'n gwybod enwau'r cymeriadau yn yr hanes? Fe gawn ni gyfle i ddysgu mwy am y cymeriadau yn ystod cyfnod yr Adfent.

Mae gan y sleid 3 'pop-up':

ADFENT

- Ystyr: 'yn dod' neu 'cyrraedd'
- Y tymor sy'n arwain at y Nadolig
- Y pedwar dydd Sul cyn y Nadolig (yn dechrau ar yr 2ail Ragfyr 2018 – cofiwch newid y dyddiad mewn blynyddoedd eraill)



24 diwrnod i atgoffa'n hunain am eni Iesu? Mae hynny'n amser maith tydi!?

Ond 2,000 o flynyddoedd yn ôl (amser maith go iawn) roedd Mair a Joseff, y gwŷr doeth, yr angylion a'r bugeiliaid yn dathlu genedigaeth brenin newydd, brenin roedd pobl wedi bod yn aros amdano ers dwy fi o flynyddoedd cyn hynny hyd yn oed!

Roedd bywyd Iesu a'i neges am gariad Duw wedi cydio ym meddyliau a chalonnau pobl ddwy fil o flynyddoedd yn ôl ac mae'n dal i wneud hynny. Rydyn ni wedi datblygu traddodiadau sbesial i'n hatgoffa ni am y Nadolig cyntaf. Mae rhai yn goleuo kannwyll bob wythnos yn ystod Mis Rhagfyr gyda'r gannwyll olaf yn cael ei goleuo ar ddiwrnod Nadolig.

Hefyd mae ganddon ni hanes fwydydd arbennig ac wrth gwrs anrhegion. Rydyn ni hefyd yn canu caneuon arbennig - carolau. Mae rhai pobl yn gweddïo'n arbennig dros bobl anghenus a thlawd yn ystod y cyfnod a mynd heb fwyd am gyfnod i ddangos eu bod o ddifri yn meddwl am eraill. Mae'n beth da i gofio am rai sydd heb fwyd a heb gartref a gwneud rhywbeth i'w helpu nhw - efallai wrth roi arian i elusen. Mae'r rhain i gyd yn ffyrdd i ni gofio fod Iesu wedi dod i rannu cariad Duw gyda phobl y byd.



Felly! 24 diwrnod yn aros, yn disgwyl ac yn paratoi am ben-blwydd Iesu.

Mae yna lawer o ffyrdd i baratoi. 'Falle wrth helpu rhywun arall; gyrru cerdyn Nadolig elusennol neu weddïo bob dydd. Ac fe gawn ni ddilyn stori'r Nadolig bob dydd gyda'n Calendr Adfent go iawn i'n hatgoffa ni fod Iesu wedi dod i'r byd i rannu cariad Duw gyda ni.



Annwyl Iesu

Diolch am ddod i'r byd fel baban. Diolch bod yr angylion wedi dweud dy fod ti am ddod a heddwch i bobl

Helpa ni i fwynhau'r cyfnod o ddisgwyl am y Nadolig, ac i ddeall hanes y Nadolig yn well. Helpa ni i ddefnyddio'r amser i baratoi ac i ddod a heddwch a llawenydd i fywydau pobl eraill.

Amen